

Tabl Opsiynau**Atodiad B**

Opsiyndau a ystyriwyd	Manteision	Anfanteision
<p>1. Cadw'r sefyllfa fel y mae: cynnal ysgolion cynradd Alltwn, Godre'r Graig a Llangiwb, cynnal y pwll yn ei sefyllfa bresennol, peidio â sefydlu darpariaeth ASA newydd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Dim cost adeiladu (ar gyfer Alltwn a Llangiwb) • Bydd ysgolion cynradd Alltwn a Llangiwb yn aros yn eu lleoliad presennol ac adeiladau presennol, h.y. dim proses newid ar gyfer staff a disgyblion 	<ul style="list-style-type: none"> • Nid yw amgylcheddau dysgu ysgolion yr 21ain ganrif yn gyraeddadwy • Mae costau/problemau ôl-groniad gwaith cynnal a chadw a hygyrchedd yn parhau ar gyfer ysgolion cynradd Alltwn a Llangiwb, oddeutu £1.9 miliwn. • Nid oes adeilad parhaol gan Ysgol Gynradd Godre'r Graig – bydd angen darpariaeth ychwanegol; byddai angen nodi safle addas • Dim arbedion refeniw • Mae ôl-groniad gwaith cynnal a chadw yn parhau ar gyfer y pwll nofio, oddeutu £1.3 miliwn. • Mae'r pwysau am leoedd ASA yn parhau'n uchel
<p>2. Sefydlu ffederasiwn o ysgolion cynradd Alltwn, Godre'r Graig a Llangiwb, cynnal y pwll yn ei sefyllfa bresennol, peidio â sefydlu darpariaeth ASA newydd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Dim cost adeiladu (ar gyfer Alltwn a Llangiwb) • Bydd ysgolion cynradd Alltwn a Llangiwb yn aros yn eu lleoliad presennol ac adeiladau presennol, h.y. dim proses newid ar gyfer staff a disgyblion 	<ul style="list-style-type: none"> • Nid yw amgylcheddau dysgu ysgolion yr 21ain ganrif yn gyraeddadwy • Mae costau/problemau ôl-groniad gwaith cynnal a chadw a hygyrchedd yn parhau ar gyfer ysgolion cynradd Alltwn a Llangiwb, oddeutu £1.9 miliwn. • Nid oes adeilad parhaol gan Ysgol Gynradd Godre'r Graig – bydd angen darpariaeth ychwanegol; byddai angen nodi safle addas • Dim arbedion refeniw • Mae ôl-groniad gwaith cynnal a chadw yn parhau ar gyfer y pwll nofio, oddeutu £1.3 miliwn. • Mae'r pwysau am leoedd ASA yn parhau'n uchel
<p>3. Cau dwy o'r ysgolion a throsglwyddo'r holl ddisgyblion i'r ysgol sy'n weddill, cynnal y pwll yn ei sefyllfa bresennol, peidio â sefydlu darpariaeth ASA newydd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Dim cost adeiladu (ar gyfer Alltwn a Llangiwb) • Bydd ysgolion cynradd Alltwn a Llangiwb yn aros yn eu lleoliad presennol ac adeiladau 	<ul style="list-style-type: none"> • Nid yw amgylcheddau dysgu ysgolion yr 21ain ganrif yn gyraeddadwy

	<p>presennol, h.y. dim proses newid ar gyfer staff a disgyblion</p> <ul style="list-style-type: none"> • Arbedion refeniw parhaus posibl 	<ul style="list-style-type: none"> • Lle cyfyngedig sydd ar gael yn Alltwen a Llangiwig ar hyn o bryd ar gyfer disgyblion ychwanegol ac mae Godre'r Graig mewn adeilad dros dro • Dim digon o le i gynyddu capasiti trwy ymestyn adeiladau'r ysgolion presennol • Mae costau/problemau ôl-groniad gwaith cynnal a chadw a hygyrchedd yn parhau ar gyfer ysgolion cynradd Alltwen a Llangiwig, oddeutu £1.9 miliwn. • Mae ôl-groniad gwaith cynnal a chadw yn parhau ar gyfer y pwll nofio, oddeutu £1.3 miliwn. • Mae'r pwysau am leoedd ASA yn parhau'n uchel
<p>4. Cau un o'r tair ysgol a throsglwyddo disgyblion i'r ddwy ysgol arall, cynnal y pwll yn ei sefyllfa bresennol, peidio â sefydlu darpariaeth ASA newydd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Dim cost adeiladu (ar gyfer Alltwen a Llangiwig) • Pe byddai Ysgol Gynradd Godre'r Graig yn cael ei dewis fel yr un i'w chau, yna byddai'r dewis hwn yn datrys y broblem adeiladau dros dro - byddai hyn hefyd yn golygu na fyddai costau adeiladu i Godre'r Graig. • Arbedion refeniw parhaus posibl 	<ul style="list-style-type: none"> • Nid yw amgylcheddau dysgu ysgolion yr 21ain ganrif yn gyraeddadwy • Dim digon o le ar unrhyw un safle ar gyfer dwy boblogaeth ysgol ychwanegol, mae Godre'r Graig mewn adeilad dros dro • Mae costau/problemau ôl-groniad gwaith cynnal a chadw a hygyrchedd yn parhau ar gyfer ysgolion cynradd Alltwen a Llangiwig, oddeutu £1.9 miliwn. • Mae ôl-groniad gwaith cynnal a chadw yn parhau ar gyfer y pwll nofio, oddeutu £1.3 miliwn. • Mae'r pwysau am leoedd ASA yn parhau'n uchel

<p>5. Cau ysgolion cynradd Alltwen, Godre'r Graig a Llangiwig ac adeiladu ysgol gynradd newydd ar un o'r safleoedd ysgol presennol, cadw'r pwll nofio yn ei safle presennol, peidio â sefydlu darpariaeth ASA newydd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Bydd un o'r ysgolion yn aros yn ei lleoliad presennol h.y. dim proses newid ar gyfer staff a disgyblion yr ysgol honno • Amgylchedd dysgu ysgolion yr 21ain ganrif sy'n briodol i ofynion y cwricwlwm newydd (wedi'i wireddu'n rhannol) • Nid yw disgyblion Godre'r Graig bellach yn mewn adeiladau dros dro • Mae costau/problemau ôl-groniad presennol o waith cynnal a chadw a hygyrchedd, oddeutu £1.9 miliwn, wedi'u dileu. • Arbedion refeniw parhaus 	<ul style="list-style-type: none"> • Safleoedd cyfyng a chyfyngedig sy'n golygu na wireddwyd amgylchedd dysgu ysgolion yr 21^{ain} ganrif yn llawn, neu nad yw adeilad newydd yn bosib ar y safle. • Cost cyfalaf sylweddol - Nid yw cyllid Llywodraeth Cymru wedi'i warantu (byddai cynnig newydd neu gynnig wedi'i ddiwygio yn golygu y byddai'n rhaid cyflwyno cais newydd i broses gymeradwyo achosion busnes Llywodraeth Cymru). • Cost ychwanegol o lety dros dro i ddisgyblion yn ystod y broses adeiladu • Gallai disgyblion/staff y ddwy ysgol sy'n cau deimlo o dan anfantais • Mae ôl-groniad gwaith cynnal a chadw yn parhau ar gyfer y pwll nofio, oddeutu £1.3 miliwn. • Mae'r pwysau am leoedd ASA yn parhau'n uchel • Effaith posibl ar addysg cyfrwng Cymraeg
<p>6. Cau Ysgolion Cynradd Alltwen, Llangiwig a Godre'r Graig ac adeiladu ysgol newydd ym Mharc Ynysderw ar gyfer 630 o ddisgyblion (a 140 o ddisgyblion meithrin) o ddalgylchoedd Alltwen, Llangiwig a Godre'r-graig sefydlu darpariaeth ASA newydd ac adeiladu pwll newydd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Amgylchedd dysgu ysgol yr 21ain ganrif sy'n briodol i ofynion y cwricwlwm newydd • Arian LIC wedi'i sicrhau • Nid yw disgyblion Godre'r Graig bellach yn mewn adeiladau dros dro • Mae costau/problemau ôl-groniad presennol o waith cynnal a chadw a hygyrchedd, oddeutu £1.9 miliwn, wedi'u dileu. • Mae pwll nofio newydd a rhywfaint o ailfodelu'r ganolfan hamdden bresennol yn darparu cyfleoedd cymunedol gwell ar gyfer iechyd a lles • Mae ôl-groniad gwaith cynnal a chadw ar y pwll nofio presennol, oddeutu £1.3 miliwn, wedi'u dileu. 	<ul style="list-style-type: none"> • Cost cyfalaf sylweddol £22.7m • Proses o newid ar gyfer cymunedau'r ysgol sy'n cymryd rhan • Amser teithio ychwanegol i rai disgyblion • Effaith posibl ar addysg cyfrwng Cymraeg

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae Canolfan Cymorth Dysgu newydd yn lleihau'r galw ar leoedd ASA cynradd arbenigol ac yn darparu cyfleoedd mynediad ar gyfer disgyblion lleol • Arbedion refeniw parhaus 	
<p>7. Cau Ysgolion Cynradd Alltwn, Llangiwg a Godre'r Graig ac adeiladu ysgol newydd ar safle arall i ddal 630 o ddisgyblion (ynghyd â 140 o ddisgyblion meithrin) o ddalgylchoedd Ysgolion Cynradd Alltwn, Llangiwg a Godre'r-graig, sefydlu darpariaeth ASD newydd a chynnal y pwll yn ei leoliad presennol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Amgylchedd dysgu ysgol yr 21ain ganrif sy'n briodol i ofynion y cwricwlwm newydd • Nid yw disgyblion Godre'r Graig bellach yn mewn adeiladau dros dro • Mae costau/problemau ôl-groniad presennol o waith cynnal a chadw a hygyrchedd, oddeutu £1.9 miliwn, wedi'u dileu. • Mae Canolfan Cymorth Dysgu newydd yn lleihau'r galw ar leoedd ASA cynradd arbenigol ac yn darparu cyfleoedd mynediad ar gyfer disgyblion lleol • Arbedion refeniw parhaus 	<ul style="list-style-type: none"> • Ni nodwyd safle dichonadwy yn yr ardal • Mae cost cyfalaf sylweddol yn debygol (nid oes modd ei hamcangyfrif gan nad oes safle dichonadwy wedi'i nodi) • Arian LIC heb ei sicrhau ar gyfer safle gwahanol • Mae ôl-groniad gwaith cynnal a chadw yn parhau ar gyfer y pwll nofio, oddeutu £1.3 miliwn. • Proses o newid ar gyfer cymunedau'r ysgol sy'n cymryd rhan • Amser teithio ychwanegol i rai disgyblion • Effaith posibl ar addysg cyfrwng Cymraeg
<p>8. Cadw'r sefyllfa fel y mae ar gyfer ysgolion cynradd Alltwn a Llangiwg a darparu ysgol newydd ar gyfer disgyblion Godre'r Graig yn Heol y Gnoll, Godre'r Graig, gyda darpariaeth ASA newydd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Amgylchedd dysgu ysgol yr 21ain ganrif sy'n briodol i ofynion y cwricwlwm newydd • Nid yw disgyblion Godre'r Graig bellach yn mewn adeiladau dros dro • Mae Canolfan Cymorth Dysgu newydd yn lleihau'r galw ar leoedd ASA cynradd arbenigol • Llai o darfu ac ofn newid i gymunedau'r ysgol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Byddai Alltwn a Llangiwg yn aros mewn adeiladau o ansawdd gwael gyda chostau/ problemau ôl-groniad o waith cynnal a chadw a hygyrchedd, oddeutu £1.9 • Cost cyfalaf sylweddol (amcangyfrifir rhwng £5.5m a £9m yn dibynnu ar niferoedd disgyblion) - nid yw cyllid Llywodraeth Cymru wedi'i warantu (byddai cynnig newydd neu gynnig wedi'i ddiwygio yn golygu y byddai'n rhaid cyflwyno cais newydd i broses gymeradwyo achosion busnes Llywodraeth Cymru). • Mae Heol y Gnoll yn safle heriol iawn, a chanddo gostau cyfalaf cynyddol sy'n golygu y byddai rhai manteision adeiladu ysgol newydd yn cael eu

		<p>perylu'n sylweddol, neu na fyddai adeilad newydd yn bosib ar y safle.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ni wnaed y gorau o arbedion effeithlonrwydd refeniw. • Mae'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw yn parhau ar gyfer y pwll • Effaith bosibl ar addysg cyfrwng Cymraeg o adeiladu ysgol newydd yn yr un lleoliad â'r ysgol cyfrwng Cymraeg presennol
<p>9. Adnewyddu ysgolion cynradd Alltwn a Llangiwg ac adeiladu ysgol newydd ar gyfer disgyblion Godre'r Graig yn Heol y Gnoll, Godre'r Graig, gyda darpariaeth ASA newydd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Nid yw disgyblion Godre'r Graig bellach mewn adeiladau dros dro • Amgylchedd dysgu ysgol yr 21ain ganrif sy'n briodol i ofynion y cwricwlwm newydd ar gyfer disgyblion Godre'r Graig • Mae Canolfan Cymorth Dysgu newydd yn lleihau'r galw ar leoedd ASA cynradd arbenigol • Mynd i'r afael â chostau/problemau ôl-groniad gwaith cynnal a chadw a hygyrchedd ar gyfer ysgolion cynradd Alltwn a Llangiwg. • Llai o darfu ac ofn newid i gymuned Godre'r Graig • Llai o ofn newid ar gyfer cymunedau Alltwn a Llangiwg. 	<ul style="list-style-type: none"> • Er yr eir i'r afael â chostau ôl-groniad gwaith cynnal a chadw a hygyrchedd yn ysgolion cynradd Alltwn a Llangiwg ar gost o oddeutu £1.9 miliwn, mae'r costau hyn ar gyfer atgyweirio'r adeilad yn unig, ac nid ydynt yn cynnwys gwella, uwchraddio, ailfodelu neu ehangu'r adeiladau presennol i ddarparu cyfleusterau (yn fewnol ac yn allanol) sy'n briodol i ofynion y cwricwlwm newydd • Nid yw costau amcangyfrifedig ôl-groniad o waith cynnal a chadw a hygyrchedd yn adlewyrchu gwerth marchnadol gwirioneddol ac maent yn debygol o fod yn uwch na'r hyn a nodir pan fydd tendr yn cael ei gynneg. Nid oes cyllid wedi'i sicrhau ar gyfer y math hwn o waith atgyweirio. • Mae problemau logistaidd mawr (a chostau ychwanegol) yn gysylltiedig ag adleoli a chludo disgyblion ysgolion Alltwn a Llangiwg dros dro wrth i waith adnewyddu gael ei wneud. • Cost cyfalaf sylweddol (amcangyfrifir rhwng £5.5m a £9m yn dibynnu ar niferoedd disgyblion) - nid yw cyllid Llywodraeth Cymru wedi'i warantu (byddai cynnig newydd neu

		<p>gynnig wedi'i ddiwygio yn golygu y byddai'n rhaid cyflwyno cais newydd i broses gymeradwyo achosion busnes Llywodraeth Cymru).</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae Heol y Gnoll yn safle heriol iawn, a chanddo gostau cyfalaf cynyddol sy'n golygu y byddai rhai manteision adeiladu ysgol newydd yn cael eu peryglu'n sylweddol, neu na fyddai adeilad newydd yn bosib ar y safle. • Costau refeniw parhaus • Mae'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw yn parhau ar gyfer y pwll • Effaith bosibl ar addysg cyfrwng Cymraeg
<p>10. Adeiladu 3 ysgol gynradd newydd ar safleoedd presennol ysgolion cynradd Alltwn, Llangiwig a Godre'r-graig, cynnal y pwll yn ei sefyllfa bresennol, a sefydlu darpariaeth ASA newydd ar un o'r safleoedd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Amgylchedd dysgu ysgol yr 21ain ganrif sy'n briodol i ofynion y cwricwlwm newydd • Nid yw disgyblion Godre'r Graig bellach mewn adeiladau dros dro • Mae costau/problemau ôl-groniad presennol o waith cynnal a chadw a hygyrchedd, oddeutu £1.9 miliwn, wedi'u dileu. • Mae Canolfan Cymorth Dysgu newydd yn lleihau'r galw ar leoedd ASA cynradd arbenigol ac yn darparu cyfleoedd mynediad ar gyfer disgyblion lleol • Llai o darfu ac ofn newid i gymunedau'r ysgol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ysgolion presennol ar safleoedd cyfyng a chyfyngedig, ac mae costau cyfalaf cynyddol yn golygu y byddai rhai o'r manteision o adeiladu ysgol newydd yn cael eu peryglu'n sylweddol neu na fyddai adeilad newydd yn bosib ar y safle. • Mae cost cyfalaf sylweddol yn debygol (nid oes modd ei hamcangyfrif oherwydd nad yw'r dyluniad sy'n cyd-fynd â safleoedd cyfyngedig sydd ar gael yn hysbys). • Nid yw cyllid Llywodraeth Cymru wedi'i warantu (byddai cynnig newydd neu gynnig wedi'i ddiwygio yn golygu y byddai'n rhaid cyflwyno cais newydd i broses gymeradwyo achosion busnes Llywodraeth Cymru). • Costau refeniw parhaus i'r 3 ysgol • Nid yw safle presennol Godre'r Graig yn ddiogel. Mae Godre'r Graig mewn adeilad dros dro, felly nid oes safle presennol ar gael

		<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw yn parhau ar gyfer y pwll • Effaith bosibl ar addysg cyfrwng Cymraeg
<p>11. Adeiladu 3 ysgol gynradd newydd ar safleoedd presennol Alltwen a Llangiwig ac yn Gnoll Road, Godrergraig ar gyfer Ysgol Gynradd Godre'r Graig, cynnal y pwll yn ei sefyllfa bresennol, a sefydlu darpariaeth ASA newydd ar un o'r safleoedd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Amgylchedd dysgu ysgol yr 21ain ganrif sy'n briodol i ofynion y cwricwlwm newydd • Nid yw disgyblion Godre'r Graig bellach mewn adeiladau dros dro • Mae costau/problemau ôl-groniad presennol o waith cynnal a chadw a hygyrchedd, oddeutu £1.9 miliwn, wedi'u dileu. • Mae Canolfan Cymorth Dysgu newydd yn lleihau'r galw ar leoedd ASA cynradd arbenigol ac yn darparu cyfleoedd mynediad ar gyfer disgyblion lleol • Llai o darfu ac ofn newid i gymunedau'r ysgol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ysgolion Alltwen a Llangiwig ar safleoedd cyfyng a chyfyngedig, ac mae costau cyfalaf cynyddol yn golygu y byddai rhai o'r manteision o adeiladu ysgol newydd yn cael eu peryglu'n sylweddol neu na fyddai adeilad newydd yn bosib ar y safle. • Mae cost cyfalaf sylweddol yn debygol (yn Alltwen a Llangiwig - nid oes modd ei hamcangyfrif oherwydd nad yw'r dyluniad sy'n cyd-fynd â safleoedd cyfyngedig sydd ar gael yn hysbys) - Nid yw cyllid Llywodraeth Cymru wedi'i warantu • Cost cyfalaf sylweddol ar gyfer adeilad newydd yn Gnoll Road (amcangyfrifir rhwng £5.5m a £9m yn dibynnu ar niferoedd disgyblion) - nid yw cyllid Llywodraeth Cymru wedi'i warantu (byddai cynnig newydd neu gynnig wedi'i ddiwygio yn golygu y byddai'n rhaid cyflwyno cais newydd i broses gymeradwyo achosion busnes Llywodraeth Cymru). • Mae Heol y Gnoll yn safle heriol iawn, a chanddo gostau cyfalaf cynyddol sy'n golygu y byddai rhai manteision adeiladu ysgol newydd yn cael eu peryglu'n sylweddol, neu na fyddai adeilad newydd yn bosib ar y safle. • Costau refereniw parhaus i'r 3 ysgol

		<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw yn parhau ar gyfer y pwll • Effaith bosibl ar addysg cyfrwng Cymraeg
<p>12. Adeiladu 2 ysgol newydd, 1 ar gyfer Alltwen a Llangiwig ym Mharc Ynysderw, ac 1 yn Heol y Gnoll, Godrergraig ar gyfer Ysgol Gynradd Godre'r Graig, cynnal y pwll yn ei sefyllfa bresennol, a sefydlu darpariaeth ASA newydd ar un o'r safleoedd</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Amgylchedd dysgu ysgol yr 21ain ganrif sy'n briodol i ofynion y cwricwlwm newydd • Nid yw disgyblion Godre'r Graig bellach mewn adeiladau dros dro • Mae costau/problemau ôl-groniad presennol o waith cynnal a chadw a hygyrchedd, oddeutu £1.9 miliwn, wedi'u dileu. • Mae Canolfan Cymorth Dysgu newydd yn lleihau'r galw ar leoedd ASA cynradd arbenigol ac yn darparu cyfleoedd mynediad ar gyfer disgyblion lleol 	<ul style="list-style-type: none"> • Cost cyfalaf sylweddol (amcangyfrif £11m ar gyfer ysgol 1 a £5.5m ar gyfer ysgol 2 yn dibynnu ar niferoedd disgyblion) - nid yw cyllid Llywodraeth Cymru wedi'i warantu (byddai cynnig newydd neu gynnig wedi'i ddiwygio yn golygu y byddai'n rhaid cyflwyno cais newydd i broses gymeradwyo achosion busnes Llywodraeth Cymru). • Costau refeniw parhaus i'r 2 ysgol– byddai'r costau hyn yn sylweddol uwch na'r cynnig ar gyfer un ysgol newydd, mae amcangyfrifon yn dangos y byddai angen tua £525k bob blwyddyn i ariannu'r model hwn • Proses o newid ar gyfer cymunedau'r ysgol sy'n cymryd rhan • Amser teithio ychwanegol i rai disgyblion • Mae'r ôl-groniad o waith cynnal a chadw yn parhau ar gyfer y pwll • Effaith bosibl ar addysg cyfrwng Cymraeg
<p>13. Cau ysgolion cynradd Alltwen, Llangiwig a Godre'r Graig ac adeiladu ysgol ddwyieithog newydd ym Mharc Ynysderw ar gyfer 630 o ddisgyblion (ynghyd â 140 o ddisgyblion meithrin) o ddalgylchoedd Alltwen, Llangiwig a Godre'r-graig, sefydlu darpariaeth ASA newydd ac adeiladu pwll newydd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Amgylchedd dysgu ysgol yr 21ain ganrif sy'n briodol i ofynion y cwricwlwm newydd • Arian LIC wedi'i sicrhau • Nid yw disgyblion Godre'r Graig bellach mewn adeiladau dros dro • Mae costau/problemau ôl-groniad presennol o waith cynnal a chadw a hygyrchedd wedi'u dileu. • Arbedion refeniw parhaus 	<ul style="list-style-type: none"> • Cost cyfalaf sylweddol £22.7m - nid yw cyllid Llywodraeth Cymru wedi'i warantu (byddai cynnig newydd neu gynnig wedi'i ddiwygio yn golygu y byddai'n rhaid cyflwyno cais newydd i broses gymeradwyo achosion busnes Llywodraeth Cymru). • Tarfiad ac ofn newid i gymunedau'r ysgol. • Amser teithio ychwanegol i rai disgyblion • Tebygolrwydd o effaith negyddol ar ysgolion cyfrwng Cymraeg presennol yr ardal oherwydd

	<ul style="list-style-type: none"> • Mae pwll newydd a pheth ailfodelu'r ganolfan hamdden bresennol yn darparu gwell cyfleoedd cymunedol ar gyfer iechyd a lles • Mae Canolfan Cymorth Dysgu newydd yn lleihau'r galw ar leoedd ASA cynradd arbenigol ac yn darparu cyfleoedd mynediad ar gyfer disgyblion lleol • Hyrwyddo targedau CSCA ar gyfer cynyddu addysg cyfrwng Cymraeg 	<p>atyniad addysg ddwyieithog mewn adeiladau newydd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nid oes sylfaen o ddisgyblion a staff cyfrwng Cymraeg yn bodoli eisoes y gellir datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg ohoni.
<p>14. Cau ysgolion cynradd Alltwn, Llangiwig a Godre'r Graig, ac YGG Trebannws, ac adeiladu ysgol ddwyieithog newydd ym Mharc Ynysderw ar gyfer 700 o ddisgyblion (a 170 o ddisgyblion meithrin) o ddalgylchoedd Alltwn, Llangiwig a Godre'r Graig, sefydlu darpariaeth ASA ddwyieithog newydd ac adeiladu pwll newydd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Amgylchedd dysgu ysgol yr 21ain ganrif sy'n briodol i ofynion y cwricwlwm newydd • Nid yw disgyblion Godre'r Graig bellach mewn adeiladau dros dro • Mae costau/problemau ôl-groniad presennol o waith cynnal a chadw a hygyrchedd wedi'u dileu. • Mae Canolfan Cymorth Dysgu newydd yn lleihau'r galw ar leoedd ASA cynradd arbenigol • Sylfaen o ddisgyblion a staff cyfrwng Cymraeg yn bodoli eisoes y gellir datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg ohoni. • Hyrwyddo targedau CSCA ar gyfer cynyddu addysg cyfrwng Cymraeg 	<ul style="list-style-type: none"> • Cost cyfalaf sylweddol £22.7m+ - nid yw cyllid Llywodraeth Cymru wedi'i warantu (byddai cynnig newydd neu gynnig wedi'i ddiwygio yn golygu y byddai'n rhaid cyflwyno cais newydd i broses gymeradwyo achosion busnes Llywodraeth Cymru). • Tarfiad ac ofn newid i gymunedau'r ysgol. • Byddai angen cau rhagor o ysgolion. • Mae YGG Trebannws wedi elwa'n ddiweddar o gyllid grant 'Cynyddu Darpariaeth Cymraeg' gwerth £460,000 gan Lywodraeth Cymru, a dan yr opsiwn hwn byddai'n rhaid cefnu ar hwn, a byddai'n destun adfachiad grant posib gan Lywodraeth Cymru pe bai'r ysgol yn cau. • Amser teithio ychwanegol i rai disgyblion • Mae posibilrwydd y byddai effaith negyddol ar YGG Pontardawe oherwydd atyniad addysg ddwyieithog yn y fangre newydd; fodd bynnag, gallai'r opsiwn hwn fod yr un mor amhoblogaidd gyda rhai teuluoedd yn YGG Trebannws, sy'n golygu y byddai YGG Pontardawe yn gynnig mwy atyniadol, gan gynyddu'r niferoedd yno drwy

		<p>ddisgyblion Cymraeg presennol CNPT ac atal twf Cymraeg newydd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynyddu maint ysgol sydd eisoes yn fawr
<p>15. Cau ysgolion cynradd YGG Pontardawe, YGG Trebannws a Godre'r Graig ac adeiladu ysgol ddwyieithog newydd ym Mharc Ynysderw ar gyfer 630 o ddisgyblion (a 140 o ddisgyblion meithrin) o ddalylchoedd YGG Trebannws, YGG Pontardawe a Godre'r Graig, sefydlu darpariaeth ASA ddwyieithog newydd ac adeiladu pwll newydd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Amgylchedd dysgu ysgol yr 21ain ganrif sy'n briodol i ofynion y cwricwlwm newydd i YGG Pontardawe , YGG Trebannws a Godre'r Graig • Nid yw disgyblion Godre'r Graig bellach mewn adeiladau dros dro • Dilëwyd costau/problemau ôl-groniad gwaith cynnal a chadw a hygyrchedd sy'n bodoli eisoes ar gyfer ysgolion cynradd Pontardawe a Threbannws. • Mae pwll newydd a pheth ailfodelu'r ganolfan hamdden bresennol yn darparu gwell cyfleoedd cymunedol ar gyfer iechyd a lles • Mae Canolfan Cymorth Dysgu newydd yn lleihau'r galw ar leoedd ASA cynradd arbenigol • Sylfaen o ddisgyblion a staff cyfrwng Cymraeg yn bodoli eisoes y gellir datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg ohoni. 	<ul style="list-style-type: none"> • Cost cyfalaf sylweddol £22.7m+ - nid yw cyllid Llywodraeth Cymru wedi'i warantu (byddai cynnig newydd neu gynnig wedi'i ddiwygio yn golygu y byddai'n rhaid cyflwyno cais newydd i broses gymeradwyo achosion busnes Llywodraeth Cymru). • Tarfiad ac ofn newid i gymunedau'r ysgol. • Mae YGG Pontardawe ac YGG Trebannws wedi elwa'n ddiweddar o gyllid grant 'Cynyddu Darpariaeth Cymraeg' gwerth £2.65 miliwn gan Lywodraeth Cymru, a dan yr opsiwn hwn byddai'n rhaid cefnu ar hwn, a byddai'n destun adfachiad grant posib gan Lywodraeth Cymru pe bai'r ysgol yn cau. • Amser teithio ychwanegol i rai disgyblion

	<ul style="list-style-type: none"> • Hyrwyddo targedau CSCA ar gyfer cynyddu addysg cyfrwng Cymraeg 	<ul style="list-style-type: none"> • Ni fyddai Alltwn a Llangiwig yn elwa o amgylchedd dysgu ysgolion yr 21ain ganrif a byddent yn aros yn yr adeiladau presennol • Nid oes cyllid ar gael ar gyfer gwella cyfleusterau mewn ysgolion cyfrwng Saesneg drwy gyllid grant 'Cynyddu Darpariaeth Cymraeg' Lywodraeth Cymru, felly byddai costau ôl-groniad gwaith cynnal a chadw a hygyrchedd yn parhau ar gyfer ysgolion cynradd Alltwn a Llangiwig.
--	--	---

Gwybodaeth Ychwanegol

O ran opsiynau sy'n cyfeirio at adnewyddu ysgolion cynradd Alltwn a Llangiwig mae'n bwysig nodi bod gan Lywodraeth Cymru broses achos busnes lem y mae'n rhaid ei bodloni er mwyn cael cyllid grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, sy'n cynnwys craffu ar achos strategol, economaidd ac ariannol unrhyw gynnig.

Mae'r ddogfen 'Canllawiau achos busnes y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy' yn nodi –

Mae gwariant cyfalaf ar gyfer ysgolion/pwrpasau addysgol yn cynnwys y canlynol:

- *Cost caffael tir ac adeiladau*
- *Cost gwaith adeiladu newydd*
- *Cost estyniadau i adeiladau presennol*
- *Gwella* tir, ffyrdd neu adeiladau (o fewn ôl troed yr ysgol)*

- *Gellir cyfalafu prynu cyfrifiaduron/cyfarpar cyfrifiadurol os ydynt yn rhan o brosiect cyfalaf ar raddfa fawr, yn cynnwys ceblau a chaledwedd cysylltiedig.*

**Gwella yw lle mae arian yn cael ei wario ar ased sy'n bodoli'n barod a bod hynny'n cynyddu'i werth neu'n ymestyn ei oes ddefnyddiol yn sylweddol. Nid yw'n cynnwys gwaith atgyweirio a chynnal a chadw arferol.*

Mae arian y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn cael ei dargedu tuag at ailfodelu ac ailadeiladu:

- *Ailfodelu – uwchraddio adeilad presennol yn helaeth ac ailddylunio'r ystafelloedd (e.e. uwchraddio i gyd-fynd â'r cwricwlwm, cyfleusterau newydd a chydymffurfio'n llawn â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabaledd).*
- *Ailadeiladu – e.e. dymchwel rhannol/llwyr ac ailadeiladu yn unol â safonau modern (hy safon Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif).*

Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys gwybodaeth fanwl ynglŷn â'r agweddau ychwanegol y mae angen eu bodloni i fodloni Llywodraeth Cymru, gan gynnwys sicrhau safonau adeiladu modern ar gyfer acwsteg, hygyrchedd, cynnwys sydd wedi'i ailgylchu a lleihau carbon, a bod gofynion y ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau yn cael eu cyflawni, ynghyd â chyflawni safon RHAGOROL yn Null Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM). Disgwylir hefyd y bydd prosiectau sy'n cael eu hariannu drwy'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy yn gwneud y gorau o ddefnyddio isadeiledd ac adnoddau, i ddarparu cyfleusterau y gall cymunedau eu defnyddio.

Mae'n wir bod y ddwy ysgol bresennol yn cael eu peryglu o ran addasrwydd eu hadeiladau ar gyfer dysgu ac addysgu'r 21ain ganrif, ac nid ydynt yn bodloni llawer o'r safonau a'r gofynion lleoedd mewnol ac allanol fel y'u nodir ym Mwletin Adeiladu 99 a fyddai fel arfer yn ddisgwyliedig mewn ysgol newydd sbon o'r 21ain ganrif. Byddai'r anawsterau o sicrhau bod modd datblygu a chymeradwyo achos busnes cadarn, gyda'r costau ychwanegol tebygol o greu 3 ysgol ar gyfer yr 21ain ganrif i'r safonau gofynnol, yn heriol iawn.

Heb gyllid gan Lywodraeth Cymru, byddai unrhyw gynnig amgen a fyddai'n cynnwys cynnal y tair ysgol bresennol a'r pwll nofio yn eu lleoliadau presennol yn golygu y byddai'n rhaid i'r cyngor dalu 100% o unrhyw gostau cyfalaf cysylltiedig.

Ar hyn o bryd mae'r cyngor yn gwario tua £1.2 miliwn bob blwyddyn o'i gyllid cyfalaf ei hun i fynd i'r afael ag anghenion cynnal a chadw ar ysgolion ac mae llawer o flaenoriaethau sy'n cystadlu bob blwyddyn. O ystyried y sefyllfa ariannol bresennol nid yw'n realistig disgwyl cynnydd enfawr mewn cyllid neu ailddosbarthiad ohono hyd y gellir rhagweld.

Mae cyfanswm costau ôl-groniad gwaith cynnal a chadw a hygyrchedd ysgolion cynradd Alltwn a Llangiwig a'r pwll nofio yn cyfateb i oddeutu £3.1 miliwn.

Gan gadw hyn mewn cof, pe bai'r cyngor yn mynd i'r afael â chostau tybiedig ôl-groniad gwaith cynnal a chadw o £3.1 miliwn yn unig, yna byddai hynny ar ei ben ei hun yn disbyddu'r holl adnoddau cyfalaf a glustnodwyd ar hyn o bryd i dalu am waith atgyweirio a phwysau ôl-groniad gwaith cynnal a chadw ar draws portffolio'r ysgol gyfan am bron tair blynedd.

Mae'n bwysig egluro mai amcangyfrifon ar gyfer atgyweirio'r adeiladau presennol yw'r costau ôl-groniad cynnal a chadw a hygyrchedd sydd wedi deillio o'r adroddiadau cyflwr, ac nid ydynt yn cyfrif am wella, ymestyn, ailfodelu neu uwchraddio (yn fewnol neu'n allanol).

Byddai datblygu cynllun i ymgymryd â'r math hwn o waith gwella'n llawer mwy na'r ffigurau a nodwyd yn yr adroddiad cyflwr. Nid yw'r amcangyfrifon am yr ôl-groniad o waith cynnal a chadw a hygyrchedd yn ystyried costau sy'n gysylltiedig â dylunio, goruchwyllo nac unrhyw ffioedd statudol nac yn cynnwys gwaith ailfodelu mewnol neu allanol i wella addasrwydd a chynlluniau'r adeiladau presennol. Nid yw'r adroddiad cyflwr wedi ystyried anghenion y tu hwnt i 5 i 10 mlynedd (1 i 5 mlynedd yn bennaf yn unol â ffurflenni ôl-groniad gwaith cynnal a chadw Llywodraeth Cymru); mae'n bosib y byddai gwaith arall sy'n angenrheidiol ar ôl y 10 mlynedd y byddai angen ei wneud i adnewyddu adeiladau yn y dyfodol, yn waith sylweddol a hynod gostus ac ni fyddai'n rhan o gwmpas yr arolwg cyflwr presennol.

Mae rhai o'r opsiynau'n archwilio ysgolion newydd sy'n cynnwys cyfuniadau o'r ysgolion presennol. Ar gyfer y rhain, y ffigurau sylfaenol yw niferoedd y disgyblion sydd yn yr ysgolion ar hyn o bryd, ynghyd ag amcangyfrif o'r disgyblion o'r dalgylch neu gyfuniad o ddalgylchoedd sy'n mynychu mewn mannau eraill.

Mae opsiynau wedi cael eu hystyried hefyd sy'n awgrymu safleoedd amgen ar gyfer ysgol newydd. Gwnaed astudiaeth bwrdd gwaith helaeth ar bob safle posib a nodwyd ar draws yr ardal ac mae pob un ac eithrio dau wedi'u diystyru am ystod o resymau, gan gynnwys bod yn rhy fach, mewn perygl o lifogydd, gweithfeydd glo blaenorol, tir halogedig a thir o werth

ecolegol. O'r ddau safle arall, Parc Ynysderw yw'r safle gorau a bydd hefyd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu campws dysgu iechyd a lles.

Mae'r ail safle ymarferol yn Heol y Gnoll yng Ngodre'r-graig. Mae hyn wedi'i nodi drwy astudiaethau bwrdd gwaith fel safle heriol iawn. Mae hyn oherwydd bod y safle wedi'i nodi fel ardal risg uchel ar gyfer gweithfeydd glo, ac mae rhan ohono o fewn parth llifogydd (y pen isaf).

Nodir bod y tir wedi'i halogi hefyd, felly byddai angen ymchwilio'r safle'n llawn a byddai angen amodau safonol arno. Nodir hefyd bod y safle y tu allan i derfynau aneddiadau ac mewn safle amlwg yng nghefn gwlad agored a allai achosi trafferthion o ran caniatâd cynllunio.

Mae lleoliad y safle'n arwain at raddiant heriol ac mae troadau'n cyfyngu ar yr ardal welededd, gan wneud y ffordd fynediad bresennol yn anniogel ac yn anaddas; er mwyn mynd i'r afael â hyn byddai angen ehangu'n sylweddol ar y tir i mewn i'r safle er mwyn bodloni gofynion TAN 18. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw droedffyrdd addas i gerddwyr i'r safle.

Gallai fod yn bosib cael mynediad i'r safle oddi ar yr A4067 – mae'n debygol y bydd angen gorchmynion lleihau traffig ffurfiol, a gwaith sylweddol i ganiatáu i gerbydau adael yr A4067 i'r safle'n ddiogel, o bosib lôn droad i'r dde newydd neu gyffordd a reolir. Mae'n debygol y bydd angen dylunio sylweddol ar y gwaith hwn a bydd y gost hefyd yn sylweddol.

Mae'n amlwg, pe bai cynnig ar gyfer y safle hwn yn cael ei ystyried yn fanylach, yna byddai angen cynnal ymchwiliadau safle sylweddol. Yn seiliedig ar ymchwiliadau blaenorol mewn safleoedd eraill o gwmpas y sir, amcangyfrifir y gallai'r rhain gostio oddeutu £100,000 - £150,000. Nid oes arian wedi'i nodi i gynnal ymchwiliadau o'r fath.

Dylid nodi hefyd pe byddai modd dod o hyd i gyllid ar gyfer ymgymryd â'r gwaith manwl hwn ar safle newydd a allai fod yn annichonadwy, mae'n anochel y byddai hyn yn cynyddu'r amser y byddai ei angen cyn y gellid datblygu adeilad newydd, felly mae'n anochel y byddai staff a disgyblion Ysgol Gynradd Godre'r Graig yn parhau mewn llety dros dro am gyfnod hwy.

Yn ogystal, dylid nodi yn achos y Gymraeg y byddai'n rhaid ystyried yn ofalus effeithiau ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd sydd wedi'i hadeiladu'n agos at ysgol gynradd Gymraeg 3 i 19 oed newydd. Dan y cynnig presennol does dim rhaid i ddisgyblion yn ardal Godre'r-graig deithio i gael mynediad at ddarpariaeth Gymraeg ond mae angen iddynt deithio i

ddarpariaeth Saesneg, gan wneud y Gymraeg yn ddewis haws. Fodd bynnag, byddai adeiladu ysgol Saesneg newydd yn agos iawn yn dileu'r dewis hawdd.